

20. ARBROFION Y BRAWD BACON
(Stori o'r drydedd ganrif ar ddeg)

Y mae rhai yn ystyried yr ysgolhaig Fransisgaidd Roger Bacon fel sylfaenydd gwyddoniaeth fodern. Credai yn gryf mewn arbrofi – ac nid y math cemegol yn unig. Dywedir iddo unwaith, tra oedd allan un bore yn cerdded, sylwi bod cynnwrf ar sgwâr y pentref. I ddechrau, credai mai ymweliad y brenin a achosai'r cynnwrf. Yna gwelodd dri gŵr ieuanc yn ymbaratoi i ymladd â chleddyfau.

Roedd y dorf yn ddigon parod i ddweud yr holl hanes wrtho.

'Tri brawd ydynt,' meddai un olchwraig. 'Bu farw eu tad yr wythnos diwethaf. Y trwbl yw, yn lle dewis etifedd yn y modd arferol, mae'r hen greadur wedi gadael ei eiddo i'r mab a'i carai fwyaf. Ac, wrth gwrs, yn awr mae'r tri mab yn honni mai ef oedd y mwyaf cariadus.'

'Sefyllfa anodd,' cytunodd un masnachwr. 'Wel, pwy sydd i farnu?' Tydi'r cyfreithwyr heb allu datrys dim. Mae'r brodyr yn gwrthod rhannu'r tir. Felly mae'r brenin wedi caniatáu brwydr hyd farwolaeth.'

Llonnodd calon y masnachwr wrth weld y talaf o'r gŵr ieuanc yn rhoi ei helmed ar ei ben. 'Fe wna'r ddau hynaf ymladd gyntaf. Yna bydd enillydd yr ornest gyntaf yn ymladd yn erbyn yr ieuengaf. Pwy bynnag sy'n ennill yr ornest a gaiff y tir.'

Gwgodd Bacon. Nid oedd yn hoffi'r syniad o weld y tri gŵr ifanc yn lladd ei gilydd er mwyn eu hetifeddiaeth.

Brysiodd Bacon i babell y Brenin Edward. 'Arglwydd,' meddai gan foesymgrymu. 'Dwi newydd glywed beth sy'n mynd i ddigwydd. Erfyniaf arnoch i rwystro'r ymladd. Credaf y gellir datrys yr helynt heb unrhyw golli gwaed.'

Byddai ambell frenin wedi digio gyda'r fath ymyrraeth. Ond yr oedd y Brenin Edward yn croesawu cyfle i arbed bywydau'r gwŷr ieuanc. 'Dwi'n fodlon i ti ddelio â'r mater,' meddai'n ddiolchgar gan amneidio'i ben. Rhoddodd derfyn ar yr ymladdfa a galwodd ar y brodyr i ddod ato.

Nid oeddynt yn siŵr p'un ai newydd da ynteu newydd drwg oedd cynnig Bacon.

'Wnewch chi dderbyn ei benderfyniad?' gofynnodd y Brenin Edward.

Edrychodd y brodyr yn flin ar ei gilydd. Oeddynt, yr oeddynt yn barod i dderbyn penderfyniad y Mynach. Ond nid oedd ganddynt unrhyw syniad sut y byddai'n gwneud ei ddyfarniad. Sut goblyn y gallai neb – hyd yn oed y gŵr mwyaf peniog yn Ewrop – fesur faint o gariad oedd yng nghalon dyn?

'Ewch adref am y tro,' meddai Bacon wrthynt. 'Fe fydd hi'n dridiau cyn y gallaf gyhoeddi fy nyfarniad.'

Felly, fe aeth y gwŷr ieuanc gartref tra aeth y mynach ati i gynllunio. 'Fe allech ei alw'n rhyw fath o arbrawf dynol,' meddai wrth y Brenin.

Pan ddychwelodd y brodyr ymhen tridiau, disgwyliai amdanynt gyda thri bwa a llond cawell o saethau. Beth oedd ar fin digwydd? A fyddent yn ymladd wedi'r cyfan? Mewn penbleth llwyr dilynodd y gwŷr ieuanc yr hen ŵr i lecyn tawel yn y goedwig. Yno rhoddodd Bacon yr arfau ar lawr.

'Fel y gwyddoch, mae hon yn sefyllfa ddyrys,' meddai'n ddwys. 'Ac nid oes unrhyw ffordd ddymunol o'i datrys. Eich tad a'ch gadawodd yn y llanast a bydd yn rhaid iddo ef eich achub.'

Wel, yr oedd y gwŷr ieuanc mewn mwy o ddryswch fyth. Sut y gallai gŵr marw achub croen neb?

'Gyda chaniatâd y brenin, yr wyf wedi codi corff eich tad o'i fedd. Ar hyn o bryd y mae y tu cefn i orchudd ar bostyn i lawr ar

y sgwâr. Ac yno, ym mhresenoldeb y brenin, ei oruchwylwyr, ei drysoryddion, y clerc a'i gaplaniaid bydd y tri ohonoch yn tanio saeth yr un. Y mab a gaiff ei saeth agosaf at galon eich tad wnaiff etifeddu ei eiddo.'

Cafwyd ennyd o dawelwch tra meddyliai'r meibion am eiriau'r mynach.

'O'r gorau, waeth i ni gael y cyfan drosodd,' meddai'r mab hynaf gan gydio yn ei arf.

'Ti gafodd y dewis cyntaf o'r arfau,' meddai'r ail frawd, 'felly fi ddylai gael saethu gyntaf.'

Ni symudodd y mab ieuengaf. 'Hwde, cymer dy arfau,' meddai Bacon gan eu hestyn iddo.

Yna dechreuodd y mab ieuengaf lefain. 'Fe ddylech fod â chywilydd o'ch hunain!' gwaeddodd ar ei frodyr. 'Sut fedrwch chi ystyried gadael i'n tad gael ei ddefnyddio fel hyn? Fe fyddai'n well gennyf golli'r holl eiddo nag anafu corff y tad a gerais tra oedd yn fyw.'

Cyn gynted ag y dywedodd yr ieuengaf hyn rhoddodd y Brawd Bacon ei law ar ei ysgwydd. Yr oedd ei arbrawf dynol wedi llwyddo. Yr oedd y tri mab wedi mynnu eu bod yn caru eu tad, ond dim ond un oedd wedi ymddwyn yn gariadus.

'Mae'r ornest drosodd. Ti, y mab ieuengaf, a gaiff yr holl eiddo!' meddai'r mynach doeth.

HYD: 4–5 munud

NEGES: Dylai'n cariad tuag at Dduw fod yn weladwy yn ein gweithredoedd.

DARLLEN: 1 Ioan 2: 1–6

GWYBODAETH YCHWANEGOL:
Ganed Roger Bacon oddeutu 1220 a bu farw oddeutu 1292. Y mae'r stori uchod yn un o nifer o straeon poblogaidd am y gŵr hwn. Ni wyddom a ydynt yn wir ai peidio, ond y mae iddynt sylfaen o wirionedd. Yr oedd Bacon yn ŵr addysgiedig iawn a hybodd lawer ar wyddoniaeth arbrofol.